**RHAGOLWG**

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 2 Tachwedd 2004]**

**Dydd Mawrth 9 Tachwedd a dydd Mercher 10 Tachwedd 2004**

**Dydd Mawrth 16 Tachwedd a dydd Mercher 17 Tachwedd 2004**

**Dydd Mawrth 23 Tachwedd a dydd Mercher 24 Tachwedd 2004**

**Dydd Mawrth 9 Tachwedd 2004**

- **Cynnig bod David Melding yn cymryd lle Jonathan Morgan fel aelod o'r Pwyllgor Busnes (1 munud)**
- **Cynnig i ethol cynrychiolydd o Awdurdod yr Heddlu i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (5 munud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Canolfan Mileniwm Cymru (30 munud)**

  Ddydd Gwener 26 Tachwedd 2004 bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn agor ei drysau i'r cyhoedd am y tro cyntaf. Bydd y datganiad hwn yn rhoi manylion diweddaraf y gwaith o adeiladu'r ganolfan, yr arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi tuag ati a hynt y gwaith o baratoi ar gyfer penwythnos yr agoriad.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 & 25.14 The Seeds (National List of Varieties )(Amendment) (1 munud)**

  EC legislation requires that, apart from certain exceptions, new plant varieties of the main agricultural and vegetable species must be included on a member state’s

national list before seed can be marketed in the UK. Entry onto the national list of a member state is a precondition for entry to the EC Common Catalogue, which allows a species to be marketed anywhere in the European Community. These Regulations amend the Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2001 (SI 2001/3510).

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**
- **Gorchymyn Deddf Dwr 2003 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2004**

Mae'r Offeryn hwn yn cychwyn:

Adrannau 77, 78 ac 80 o Ddeddf Dwr 2003 (y Ddeddf) sy'n diwygio Deddf Cronfeydd Dwr 1975 ac sy'n galluogi'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i ymgymerwyr baratoi cynlluniau yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd pe bai cyforgronfeydd dwr mawr yn gorlifo, i gyfarwyddo Asiantaeth yr Amgylchedd i beidio â chynnwys gwybodaeth benodol mewn cofrestrau o gronfeydd, ar sail diogelwch y wlad, ac i gymhwyso darpariaethau y Ddeddf Cronfeydd Dwr i'r Goron;

Mae adran 81 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gymryd camau i annog arbed dwr, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo baratoi adroddiadau ar y camau y mae'n eu cymryd i arbed dwr; a

Mae Adran 86 o'r Ddeddf, sy'n diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 er mwyn egluro'r diffiniad o "controlled waters" at ddibenion y gyfundrefn tir halogedig. Mae hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ynghyd â diddymiadau. Offerynnau ar gyfer cychwyn rhannau eraill y Ddeddf y mae gan y Cynulliad bwer i'w cychwyn, sef adran 58 (sy'n ymwneud â fflwrideiddio). Bydd gweddill is-adrannau adran 86 (a fydd yn diwygio'r diffiniad o "contaminated land" i'r graddau y mae'n gysylltiedig â "controlled waters") yn cael eu dwyn ymlaen yn ddiweddarach.

- **Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Mae'r Rheoliadau drafft hyn a Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004, yn diwygio offeryn statudol blaenorol yn sgîl Deddf Safonau Gofal 2000. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ar gyfer cofrestru ac arolygu cartrefi gofal, gan gynnwys sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gofal digonol a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu hystafelloedd yn ddiogel ac yn gyffyrddus. Mae hyn wedi golygu mewn rhai achosion fod cyfleusterau coginio neu ystafell ymolchi wedi'u darparu mewn ystafelloedd er mwyn rhoi rhagor o annibyniaeth a phreifatrwydd i breswylwyr. Mae'n rhaid i gartref ddarparu gofal yn ogystal â llety i breswylwyr er mwyn cyd-fynd â'r diffiniad statudol o gartref gofal. Gall hyn achosi ansicrwydd mewn rhai achosion o ran a yw uned arbennig yn hunangynhwysol at ddibenion prisio'r

dreth gyngor, a gallai olygu bod yn rhaid i breswylwyr llety o'r fath dalu'r dreth gyngor am y tro cyntaf.

- **Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Mae'r Gorchymyn drafft hwn a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) (Diwygio) (Cymru) 2004 yn diwygio Gorchmynion blaenorol, yn sgîl Deddf Safonau Gofal 2000. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ar gyfer cofrestru ac arolygu cartrefi gofal, gan gynnwys sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gofal digonol a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu hystafelloedd yn ddiogel ac yn gyffyrddus. Mae hyn wedi golygu mewn rhai achosion darparu cyfleusterau coginio neu ystafell ymolchi mewn ystafelloedd er mwyn rhoi rhagor o annibyniaeth a phreifatrwydd i breswylwyr. Mae'n rhaid i gartref ddarparu gofal yn ogystal â llety i breswylwyr er mwyn cyd-fynd â'r diffiniad statudol o gartref gofal. Gall hyn achosi ansicrwydd mewn rhai achosion o ran a yw uned arbennig yn hunangynhwysol at ddibenion prisio'r dreth gyngor, a gallai olygu bod yn rhaid i breswylwyr llety o'r fath dalu'r dreth gyngor am y tro cyntaf.

- **Cynnig i gynnal dadl ar y ddau eitem nesaf gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004**

Gwneir Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 o dan adrannau 36, 60 a 62 o Ddeddf 2004 er mwyn galluogi'r cynllun pensiwn a sefydlwyd o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 barhau mewn grym er bod y Ddeddf honno wedi'i diddymu. Mae'r Gorchymyn yn galluogi dynion tân presennol sy'n aelodau presennol o'r cynllun; pobl a all ymuno â'r gwasanaeth cyn i gynllun newydd ddod i rym; pensiynwyr presennol; a'r bobl sydd â hawl i bensiwn wedi'i ohirio i barhau i dderbyn budd-dâl pensiwn. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer newid enw'r cynllun o Gynllun Pensiwn y Dynion Tân i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru).

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub**

**(Cychwyn) (Cymru) 2004**

Bydd Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2004 yn dod â darpariaethau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004, nad ydynt eisoes mewn grym i rym.

Rhennir y Ddeddf yn saith Rhan –

Rhan 1 – yn pennu pa gorff yw'r awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal, ac yn darparu ar gyfer cyfuno dau neu fwy awdurdod tân ac achub drwy orchymyn.

Rhan 2 – yn amlinellu dyletswyddau a phwerau awdurdodau tân ac achub.

Rhan 3 – yn darparu ar gyfer paratoi Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Tân ac Achub sy'n amlinellu blaenoriaethau strategol y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ar gyfer goruchwylio awdurdodau tân ac achub. Mae'n gwneud darpariaeth atodol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu cyfarpar a chanolfannau hyfforddiant ar gyfer awdurdodau tân ac achub.

Rhan 4 – yn ymdrin â chyflogaeth gan awdurdodau tân ac achub, ac yn arbennig creu cyrff trafod i bennu telerau ac amodau gweithwyr a chynlluniau pensiwn.

Rhan 5 – yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau tân ac achub ac ymgymerwyr dwr er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o ddwr ar gyfer gweithgareddau diffodd tân.

Rhan 6 – yn ymdrin â phwerau gweithwyr awdurdodau tân ac achub i ymgymryd â gwaith achub ac ymchwiliadau, ynghyd â nifer o ddarpariaethau canlynol a diddymiadau, gan gynnwys diddymu'r Cyngor Cynghori Brigadau Tân Canolog.

Rhan 7 – yn gwneud darpariaeth gyffredinol mewn perthynas ag ymgynghori cyn cychwyn, dehongli, offerynnau statudol, maint eu hardaloedd ac ati.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer datganoli cyfrifoldeb am y gwasanaeth yng Nghymru o Lywodraeth y DU i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004 (10 munud)**

  Ceir gweithdrefn apelio ar hyn o bryd i ffermwyr Cymru mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer cynlluniau cymorth y System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS). Yn sgîl diwygio'r PAC bydd Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol yn cael eu cyflwyno yn 2005. Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu gweithdrefn apelio ar gyfer y cynlluniau hyn. Mae'r Rheoliadau yn berthnasol i ddaliadau a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

- **Cynnig i gynnal dadl ar y ddau eitem nesaf gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004**

  Diben y Gorchymyn yw gwaredu'r sail statudol ar gyfer profion y Cwricwlwm

Cenedlaethol i ddisgyblion 11 mlwydd oed ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 Rheoliadau Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau) Canlyniadol (Trefniadau Asesu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2) 2004**

  Mae’r Rheoliadau yn cyflwyno newidiadau canlyniadol i reoliadau amrywiol eraill sy’n ei gwneud yn ofynnol i adrodd ar ganlyniadau’r profion neu i’w cyhoeddi.

- **Dadl wedi’i henwebu gan y Ceidwadwyr (45 munud)**

**Dydd Mercher 10 Tachwedd 2004**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (20 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (20 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

  This is a motion to delegate to the First Minister (as provided for by section 62(1((b) of the Government of Wales Act 1998) functions relating to the audit of public bodies in Wales which are devolved to the Assembly by the Public Audit (Wales) Act 2004**.**

- **Cynnig i gymeradwyo Siartr y Rhanbarthau (5 munud)**

  CALRE is the inter-parliamentary association for speakers, presidents, presiding officers and chairs of European regions with legislative power.

  It meets in conference for an annual plenary and occasionally throughout the year for one-off events and standing committee meetings, the purpose of which is primarily for an exchange of information. CALRE invites its members to sign up to a declaration to promote participation and mutual exchange of information. This document will be laid before the Assembly for its endorsement.

- **Dadl ar Adroddiad y Grp Gweithredu Polisi Chwarae (45 munud)**

  Ym mis Hydref 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Pholisi Chwarae. Hon oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisi o'r fath. Seiliwyd y Polisi ar Erthygl 31 o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n nodi bod gan y plentyn yr hawl i orffwys ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwarae. Sefydlwyd Grp Gweithredu Polisi Chwarae er mwyn pennu strategaeth fanylach a chyflwynodd adroddiad yn cynnwys 24 o

argymhellion i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2004.

- **Dadl ar Adroddiad Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol (60 munud)**

  Ymateb i swyddogaeth y Pwyllgor o archwilio cyfrifoldeb statudol y Cynulliad am hyrwyddo cydraddoldeb oedd yr adolygiad.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 16 Tachwedd 2004**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Hynt *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru* (30 munud)**

  Bydd y datganiad yn creu cyfle i'r Gweinidog adrodd ar hynt y Rhaglen *Cynllunio: Cyflawni dros Gymru*. Bwriedir amlinellu'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hefyd pennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

- **Dadl wedi'i henwebu gan Y Democratiaid Rhyddfrydol (45 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (60 munud)**

  Bydd y ddadl hon yn creu cyfle i nodi Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar gyfer 2003-04, sy'n amlinellu tueddiadau ynghyd ag ansawdd y gwasanaethau gofal yng Nghymru.

**Dydd Mercher 17 Tachwedd 2004**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (20 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (20 munud)**
- **Dadl ar Gynllun Gofodol Cymru (60 munud)**

  Mae cynhyrchu Cynllun Gofodol Cymru yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. O dan y ddeddfwriaeth honno, rhaid i'r Cynllun gael ei fabwysiadau gan benderfyniad a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (60 munud)**

  The Children's Commissioner for Wales reports to the First Minister each year summarising his activities from the previous year, reviewing issues affecting children and young people and setting out his programme for the coming year.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2004**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar TB mewn Gwartheg (30 munud)**

  Cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddadl ar adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar TB mewn Gwartheg ar 5 Hydref 2004

- **Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 24 Tachwedd**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Dadl ar adroddiad adolygiad polisi Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Addysg Arbennig (60 munud)**

  This is the first part of a three phase policy review. This initial report focuses on early identification of and intervention. Subsequent phases will examine the 'statementing' process and problems encountered by children and young people with SEN during transition through the various stages of statutory education, and then onto further or higher education and the world of work. The report was agreed by ELL Committee on 13 October 2004. It is intended to launch the report on the morning of 24th November at Meadowbank Special School in Cardiff.

- **Y ddadl fer (30 munud)**